## Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 17 Ionawr 2007

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 10 Ionawr 2007

**Dadl Fer**

**NDM3398 Sandy Mewies (Delyn):** O Geiniog i Geiniog: pam bod llythrennedd ariannol yn bwysig

**NDM3396 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol ag adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn a than Ddeddf Tir Comin 2006 ac eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Tir Comin 2006 ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/20060026.htm*

**NDM3397 Sue Essex (Gogledd Caerdydd):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo'r Local Government Finance Report (No 1) (Saesneg yn unig) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**NDM3399 Mike German (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor:

Diwygio Rhan 1 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, i ganiatáu gosod, addasu neu newid technolegau micro-gynhyrchu mewn neu ar dy annedd [neu yng nghwrtil ty annedd].

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Mae adrannau 59, 61 a 333 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi'r Cynulliad i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Byddai deddfwriaeth o'r fath yn sicrhau bod gofynion cynllunio'n hwyluso gosod technolegau micro-gynhyrchu.

**Goblygiadau o ran adnoddau**:

Ychydig o gostau sydd ynghlwm wrth ddiwygio gofynion cynllunio - mân newid gweinyddol ydyw.

*Gellir canfod copi o Local Government Finance Report (No 1) (Saesneg yn unig) ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://www.opsi.gov.uk/si/si1995/Uksi_19950418_en_1.htm*